

ATODIAD 1

CYNGOR GWYNEDD

ADRAN ADDYSG

POLISI CLUDIANT ÔL-16 OED (Medi 2022)

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae rhan 2 o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol asesu anghenion teithio pob dysgwr sydd dan 19 oed sy'n derbyn addysg neu hyfforddiant ac sydd â chartref arferol o fewn ardal yr awdurdod.
- 1.2 Nid oes dyletswydd statudol ar awdurdod lleol i ddarparu trafndiaeth rad ac am ddim i ddysgwyr ôl-16 oed sy'n parhau gyda'u hastudiaethau mewn addysg bellach neu hyfforddiant prif ffrwd.
- 1.3 Bwriad y Cyngor yw darparu cludiant i ddysgwyr ôl-16 oed sy'n byw tair milltir neu fwy o ysgol neu goleg cymwys.
- 1.4 Bydd y Cyngor yn darparu cludiant i ddysgwyr ôl-16 oed sy'n derbyn addysg neu hyfforddiant ac sydd â chartref arferol o fewn ardal yr awdurdod. Ni fydd y Cyngor yn cyfyngu'r oed i ddysgwyr sydd dan 19 oed yn unig.
- 1.5 Bydd y Polisi newydd hwn yn dod i rym ar 1af o Fedi 2022 ac yn effeithio ar bob dysgwr sy'n cychwyn ar gwrs cymwys o'r dyddiad yma.

2. Pwy sy'n gymwys?

- 2.1 Mae'r Polisi hwn ar gyfer dysgwyr sy'n byw yn Sir Gwynedd.
- 2.2 Bydd rhaid i'r dysgwr ddilyn cwrs / cyrsiau sydd yn y Gronfa Ddata Cymwysterau Cymeradwy yng Nghymru (DAQW). [Gwelir www.daqw.org.uk am fanylion.]
- 2.3 Bydd dysgwyr gydag anghenion addysgol ychwanegol yn medru manteisio ar gynllun cludo ôl-16 oed y Cyngor am gyfnod hyd at 4 blynedd o ddechrau eu tymor cyntaf

3. Pellteroedd

- 3.1 Ni fydd y Cyngor yn darparu cludiant ar gyfer dysgwyr sy'n byw llai na thair milltir o ysgol neu goleg cymwys.
- 3.2 Bydd y Cyngor yn defnyddio'r pellter a fesurwyd ganddynt o'r cartref i'r ysgol neu goleg cymwys ar Gyfundrefn Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) y Cyngor er mwyn darganfod y gwir bellteroedd.

4. Ysgolion a safleoedd coleg perthnasol

- 4.1 Mae'r Polisi yn berthnasol ar gyfer teithio i'r sefydliadau addysgol canlynol:

- ysgolion uwchradd a gynhelir gan Gyngor Gwynedd sy'n darparu ar gyfer Blynyddoedd 12 & 13
- ysgolion arbennig a gynhelir gan Gyngor Gwynedd sy'n darparu ar gyfer Blynyddoedd 12 & 13 & 14
- safleoedd Dolgellau, Pwllheli, Glynllifon, Menai-Bangor, Parc Menai, Llangefni a Chaernarfon, Grŵp Llandrillo Menai.

- 4.2 Gellir gweld y cyrsiau sydd ar gael ym mhob un o'r sefydliadau hyn yn eu prosiectai, sydd ar gael oddi wrth y sefydliadau yn uniongyrchol. Bydd ffurflen gychwynnol gofyn am fanteisio ar y rhwydwaith cludiant ôl-16 ar gael ar yr adeg y bydd dysgwyr yn ystyried eu dewisiadau o'r Cwricwlwm Lleol.
- 4.3 Yn ogystal, o dan y cynllun "seddi gweigion", bydd myfyrwyr addysg uwch ym Mhrifysgol Bangor a Safle Menai, Bangor, Grŵp Llandrillo Menai yn medru teithio ar lwybrau sy'n gwasanaethu safle Menai, Bangor, Grŵp Llandrillo Menai, ar ddiwrnodau tymor Safle Menai, Grŵp Llandrillo Menai, yn unig.

5. Y Rhwydwaith cludiant ôl-16 oed

- 5.1 Oherwydd natur ddaearyddol Gwynedd, nid yw bob amser yn bosibl trefnu llwybrau cludiant i fynd heibio cartrefi pob dysgwr sy'n awyddus i deithio. Bydd angen i ddysgwyr wneud eu ffordd eu hunain i'r man codi agosaf. Gwneir pob ymdrech i gadw'r pellter hwn mor fyr â phosibl.
- 5.2 Bydd cludiant ar gael ar lwybrau penodol fydd yn arwain at y sefydliad(au) perthnasol. Hysbysir dysgwyr ar Wefan y Cyngor am yr union lwybrau a ragwelir bydd ar gael yn y mis Medi canlynol adeg cwblhau cais am le mewn ysgol neu goleg perthnasol.
- 5.3 Cyfrifoldeb dysgwyr unigol fydd cyrraedd y man codi agosaf ar un o'r llwybrau. Ni fydd y Cyngor yn darparu cludiant ychwanegol i gyrraedd unrhyw fan codi / gollwng ar un o'r llwybrau .
- 5.4 Cyfrifoldeb y darparwr cludiant yw asesu diogelwch unrhyw bwynt codi / gollwng. Bydd rhaid i ddysgwyr defnyddio'r man diogel agosaf i'w cartref.
- 5.5 Bydd y Cyngor yn adolygu'r rhwydwaith o lwybrau yn flynyddol er mwyn gwella effeithlonrwydd. Bydd unrhyw newidiadau yn hysbys cyn Gwyliau'r Pasg a dim ond yn cael eu cyflwyno ar ddechrau'r flwyddyn academaidd ddilynol.

6. Ceisio am y cludiant

- 6.1 Bydd angen i bob dysgwr ôl-16 sydd am gael cludiant lawrlwytho tocyn pwrpasol odd ar wefan y Cyngor. Mae derbyn tocyn yn amodol ar dderbyn y Cod Ymddygiad Wrth Deithio.
- 6.2 Ni chaniateir teithio heb docyn ar wahân i gyfnod byr ar ddechrau tymor cyntaf dysgwyr ôl-16 bydd cyfnod iddynt deithio heb docyn ar ddiwedd / dechrau'r daith yn amodol ar gario llythyr pwrpasol oddi wrth yr ysgol / coleg sy'n cadarnhau eu bod nhw wedi cofrestru yn yr ysgol / coleg.

- 7.4 Bydd llun y dysgwr sydd â hawl defnyddio'r tocyn ar bob tocyn gydag enw(au) yr ysgol/coleg a'r rhif(au) llwybrau teithio dilys.
- 7.5 Rhaid cario'r tocyn bob dydd a dylent fod ar gael i'w harchwilio gan y sawl sydd â hawl, e.e. gyrrwr bws, archwilydd bws, swyddog y Cyngor. Gellir gwrthod yr hawl teithio i ddysgwyr heb docyn yn eu meddiant ar y pryd, oni bai eu bod yn talu'r swm priodol ar gludiant cyhoeddus neu'r swm cyfredol a bennwyd gan y Cyngor ar gyfer pob siwrnai ar gludiant trwy gytundeb.
- 7.6 Gellir gwneud cais am docyn plastig mewn amgylchiadau arbennig. Mae'r tocyn ar gael am ddim ond codir tâl am docyn newydd oherwydd colli, torri neu ddifrod arall i docyn. Bydd y ffi'n unol â'r gyfradd gyfredol.
- 7.7 Mae pob tocyn ar gyfer defnydd un unigolyn yn unig. Bydd caniatáu i unigolyn arall defnyddio tocyn dysgwr arall yn groes i'r Polisi. Bydd camddefnydd o'r math hwn yn arwain at unigol(ion) yn colli'r fraint o ddefnyddio cludiant wedi'i sybsydeiddio gan y Cyngor a'u tocyn(nau) yn cael eu tynnu yn ôl.
- 7.8 Cewch hyd i ffurflen gais am docyn ar Wefan y Cyngor.
- 7.9 Pe bai dysgwyr yn newid cwrs, neu os bydd lleoliad y cwrs yn newid, bydd rhaid cyflwyno cais o'r newydd. Bydd y ceisiadau hyn yn derbyn ystyriaeth frys.

8. Adegau Teithio

- 8.1 Bydd cludiant ar gael rhwng dydd Llun a dydd Gwener yn ystod tymhorau'r ysgol/coleg perthnasol yn unig.
- 8.2 Bydd rhaid i daith i goleg neu ysgol cael ei chwblhau cyn 12:00.
- 8.3 Ni ellir teithio adref o'r coleg neu ysgol cyn 13:00. Bydd rhaid i daith adref gychwyn cyn 18:00, oni bai fod gan y dysgwr lythyr swyddogol o'r ysgol / coleg sy'n cadarnhau fod amser y wers / darlith olaf ar ddiwrnod(au) penodol yn rhwystro teithio cyn 18:00.

9. Math o ddarpariaeth cludiant

- 9.1 Bydd y Cyngor yn darparu cludiant yn y dull mwyaf effeithiol a phriodol. Yn bennaf bydd y Cyngor yn trefnu defnydd o wasanaethau bws a thrên cyhoeddus.
- 9.2 Yn ogystal bydd y Cyngor yn darparu cludiant ar fysus, bysiau mini neu dacsis sydd o dan gytundeb gyda'r Cyngor.
- 9.3 Bydd y Cyngor yn disgwyl i weithredwyr sicrhau prydlondeb eu gwasanaethau a cherbydau glân o ansawdd gyda gyrrwyr sydd wedi eu hyfforddi'n bwrpasol ar gyfer natur y gwaith a'r teithwyr.

10. Cynllun "seddi gweigion"

- 10.1 O dan rai amgylchiadau ni fydd pob sedd mewn cerbyd sy'n darparu cludiant dysgwyr i ysgol neu goleg yn unol â'r Polisi yn llawn. O dan y fath amgylchiadau gall dysgwyr eraill dalu i ddefnyddio un o'r seddi gweigion.

10.2 Y categorïau o ddysgwyr sydd dan sylw yw:

- y sawl sy'n byw llai na thair milltir o'r sefydliad addysgol
- myfyrwyr mewn addysg uwch ym Mhrifysgol Bangor neu Safle Menai, Grŵp Llandrillo Menai
- disgyblion o dan 16 oed ysgol sy'n mynychu ysgol all-dalgylch.

10.3 Dylid cyflwyno cais am docyn sedd wag yn yr un modd â thocyn arferol. Fodd bynnag ni fydd ceisiadau yn cael eu penderfynu tan ar ôl diwrnod cyntaf Tymor yr Hydref.

10.4 Mae'n bosib i nifer y dysgwyr sydd â hawl i gludiant godi yn ystod unrhyw dymor academaidd, ac felly na fydd mwyach sedd wag ar gael. O dan yr amgylchiadau yma ni fydd yn bosibl i ddysgwyr yn un o'r categorïau ychwanegol uchod barhau i deithio ar y cerbyd. Yn y fath amgylchiadau bydd y Cyngor yn ad-dalu ffi lawn y dysgwyr am y tymor. Cyfrifoldeb y dysgwr unigol wedyn fydd cyrraedd y coleg neu ysgol.

11. Y Cod Ymddygiad

11.1 Mae'r Cyngor yn cefnogi'r "Cod Ymddygiad Wrth Deithio" a baratowyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r Cod yn gosod disgwyliaid ar y dysgwr unigol, cyd-deithwyr a'r darparwyr cludiant. Gellir gweld y Cod ar Wefan y Cyngor.

11.2 Wrth i ddysgwyr gyflwyno cais am gludiant ôl-16 bydd yn rhaid iddynt, neu riant / gwarchodwr, ddatgan ar y ffurflen gais eu bod nhw wedi deall ac yn ymrwymo i gadw at y Cod Ymddygiad a'u bod yn ymwybodol o'r canlyniadau posib wrth dorri'r Cod.

11.3 Gall gweithrediad annerbyniol sy'n groes i'r Cod gan ddysgwr arwain at:

- adennill costau difrod pwrpasol gan ddysgwyr a / neu eu rhieni / gwarchodwr
- dileu'r trefniadau teithio a gytunwyd i ddysgwr am gyfnod penodol neu amhenodol. [Cyfrifoldeb y dysgwr fydd gwneud eu trefniadau cludiant eu hunain o dan yr amgylchiadau hyn.]
- camau disgyblu gan yr ysgol neu goleg perthnasol
- cyflwyno adroddiad am y digwyddiad i'r Heddlu.

12. Cludiant oherwydd rhesymau meddygol

12.1 Oherwydd anabledd corfforol a / neu anghenion arbennig eraill bydd rhai myfyrwyr yn wynebu problemau defnyddio Rhwydwaith cludiant ôl-16 y Cyngor.

12.2 Mae'r Polisi'n ceisio datblygu cynhwysiant yn ogystal ag annibyniaeth pob dysgwr. Bydd annog eu datblygiad addysgol a chymdeithasol er budd mawr i'r holl ddysgwyr, gan gynnwys gweithio tuag at deithio'n annibynnol. Bydd dysgwyr yn derbyn anogaeth i gyflawni hyn cyn gynted â phosibl a hynny, wrth reswm, mewn ymgynghoriad â'r rhieni / gwarchodwyr.

12.3 Bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau fod modd i ddysgwyr gydag anawsterau teithio ddefnyddio'r cerbydau sy'n darparu'r Rhwydwaith craidd. Er mwyn ei gwneud yn haws iddynt, bydd y Cyngor yn ystyried defnydd o gerbydau gyda mynediad

hawdd, addasiadau i'r manau codi / gollwng y dysgwyr, darparu cynorthwydd, datblygu cynllun cyfeillio, ymestyn cymorth pontio, ayyb. Y nod yw magu hyder ac annibyniaeth wrth deithio a fydd yn gymorth ychwanegol ar ôl gorffen cyfnod addysgol.

12.4 Wrth wneud penderfyniad bydd y canlynol yn cael eu cymryd i ystyriaeth cyn dyrannu cludiant arbennig i ddysgwyr:

- natur anghenion arbennig y dysgwr
- a yw'r daith arferol yn hygyrch i'r dysgwr ai peidio
- a oes gan y dysgwr broblemau meddygol penodol, boed yn y tymor byr neu hirdymor
- a oes gan y dysgwr anawsterau symudedd.

12.5 O dan rai amgylchiadau ni fydd defnydd o'r Rhwydwaith Cludiant - neu gerbyd arferol, yn bosibl. Bydd rhaid cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig gan arbenigwr - e.e. Ymgynghorydd Pediatriydd, o'r anawsterau personol sy'n atal dysgwyr rhag defnyddio cludiant arferol ac asesiad o allu'r dysgwyr i deithio o dan rai amgylchiadau gyda'r ffurflen gais. Bydd y Cyngor yn ystyried y dull gorau o ddarparu cludiant i'r dysgwr unigol, sef ar y Rhwydwaith craidd neu drefniant arbennig o dan rai amgylchiadau prin.

12.6 Adolygir anghenion dysgwyr gydag anghenion cludiant oherwydd rhesymau meddygol yn flynyddol.

13. Cefnogaeth ariannol i ddysgwyr

13.1 Ers 2004/05 mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cynnig Lwfans Cynhaliath Addysg i ddysgwyr dros 16 oed sy'n mynychu ysgol neu goleg lleol. Y brif elfen yw lwfans wythnosol sy'n gysylltiedig â mynychu'r sefydliad addysgol ac ymdrech astudio digonol.

13.2 Mae'r Lwfans yn dibynnu ar incwm y cartref. Telir y Lwfans er mwyn cynorthwyo gyda chostau teithio, llyfrau ac offer wrth ddilyn cwrs mewn coleg neu ysgol ar ôl 16 oed.

13.4 Gall dysgwyr ddarganfod mwy am hyn ar y Wefan www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk

14. Newidiadau i'r Polisi a Ffioedd

14.1 O dro i dro bydd y Cyngor yn newid ei Bolisi Cludiant ôl-16 oed. Bydd unrhyw newidiadau yn cael eu penderfynu cyn Gwyliau'r Pasg cyn dechrau'r flwyddyn academaidd ddilynol. Bydd y newidiadau yn dod i rym ar y 1af o Fedi canlynol.

14.2 Bydd y Cyngor yn adolygu eu polisi gyfer cludiant ôl-16 oed yn flynyddol. Bydd unrhyw newidiadau yn cael eu penderfynu cyn Gwyliau Pasg cyn dechrau'r flwyddyn academaidd ddilynol. Bydd y newidiadau yn dod i rym ar y 1af o Fedi canlynol.

15 Cwynion a sylwadau

15.1 Dylid cyflwyno unrhyw gwynion neu sylwadau ynglŷn â'r Polisi hwn yn unol â Threfn Cwynion a Sylwadau'r Cyngor.

GWYBODAETH YCHWANEGOL

Mae'r canlynol ar gael ar wefan y Cyngor : www.gwynedd.llyw.cymru

- A. Amserlenni a mapiau o'r Rhwydwaith i'r sefydliadau perthnasol
- B Y Cod Ymddygiad
- C Ffurflen gais.
- Ch Cwynion a Sylwadau

Mae manylion a ffurflen gais y Lwfans Cynhaliath Addysg a Grant Dysgu'r Cynulliad ar gael ar y Wefan www.cyllidmyfywrcymru.co.uk neu o golegau ac ysgolion unigol.

Gellir cysylltu â'r ysgolion a cholegau perthnasol fel y ganlyn :

Ysgol Bro Idris : 01341 424949

Ysgol Godre'r Berwyn: 01678 520259

Ysgol Dyffryn Nantlle : 01286 880345

Ysgol Syr Hugh Owen : 01286 673076

Ysgol Brynrefail : 01286 672381

Ysgol Tryfan : 01248 352633

Ysgol Friars : 01248 364905

Ysgol Dyffryn Ogwen : 01248 600291

Ysgol Pendalar : 01286 672141

Ysgol Hafod Lon : 01766 772140

Grŵp Llandrillo Menai

Dolgellau : 01341 422827

Pwllheli : 01758 701385

Glynllifon : 01286 830261

Bangor : 01248 370125

Llangefni : 01248 383348

Parc Menai : 01248 67434

Caernarfon : 01248 673450